**Cyfarfod Grwp Trawsbleidiol y Celfyddydau ac Iechyd 18 Medi 2019**
**12.30, Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead, Bae Caerdydd.**

**Yn bresennol**
Jayne Bryant AC, Cadeirydd
Maddie Rees, Pennaeth Digidol ac Ymgyrchoedd
Mandy Jones AC
Caroline Jones AC
Ryland Doyle, Staff Cymorth Mike Hedges AC
Sian Tomos, Cyngor Celfyddydau Cymru
Sally Lewis, Cyngor Celfyddydau Cymru
Nesta Lloyd-Jones, Conffederasiwn GIG Cymru
Callum Hughes, Conffederasiwn GIG Cymru
Paul Lewis, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Angela Rogers, WAHWN
Sarah Goodey, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Prue Thimbleby, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Rhian Webber, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Simon Joslyn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Andrea Davies, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Paul Kaynes, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru
Guy O'Donnell, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru
Tim Joss, AESOP
Yr Athro James Lewis, Y Lab
Tim Jenkins, Llywodraeth Cymru
Lois Williams, Cyngor Celfyddydau Cymru
Helen Williams, Cyngor Celfyddydau Cymru (gwneud y cofnodion)

**Ymddiheuriadau**
Louisa Kerr, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Rob Ashelford, Y Lab
Amy Lewis, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Gill Windle, Prifysgol Bangor

**Croeso a chyflwyniadau gan Jayne Bryant (JB) AC**
Croesawodd JB bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i Paul Kaynes a Guy O'Donnell, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, a Tim Joss, AESOP, a fyddai'n gwneud cyflwyniadau yn ystod y cyfarfod.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Ail-ethol y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd**
Cadarnhaodd JB y byddai'n parhau â'i rôl fel Cadeirydd y Grŵp ac y byddai Lois Williams, Cyngor Celfyddydau Cymru, yn cymryd rôl ysgrifenyddiaeth y cyfarfod ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf ar 20 Mawrth 2019**
Cytunodd y Grŵp fod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gywir.

**Y diweddaraf gan bartneriaid**
Nododd y Cadeirydd fod pob un o'r nodiadau diweddaru gan bartneriaid wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod er gwybodaeth, a chadarnhaodd Sally Lewis (SL) hyn.

**Paul Kaynes, Prif Weithredwr, a Guy O'Donnell, Cynhyrchydd Dysgu a Chyfranogi, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru**
Soniodd Paul Kaynes (PK) a Guy O'Donnell (GO'D) am y gwaith y mae Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru wedi bod yn rhan ohono gyda'u rhaglenni Dawns ar gyfer Parkinson's a Dance to Health (atal cwympiadau). Dangoswyd ffilm fer, a oedd yn rhoi cipolwg ar waith allweddol y cwmni ym maes y celfyddydau ac iechyd, yn ogystal â chroestoriad o waith o bob rhan o'r sector dawns ehangach yng Nghymru. Esboniodd PK fod partneriaethau yn ganolog i lwyddiant y rhaglenni a nododd fod y buddion yn cael effaith gadarnhaol ar symudedd a llesiant corfforol cyfranogwyr, yn ogystal ag ar iechyd meddwl, llesiant a hyder pobl. Mae rhagor o wybodaeth am brosiectau ac astudiaethau achos Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru i'w gweld ar ei wefan. Nododd PK bwysigrwydd parhaus rôl y Grŵp Trawsbleidiol o ran cyfleu llwyddiant ac effaith dawns ar iechyd a llesiant pobl er mwyn parhau â'r momentwm. Diolchodd y Cadeirydd i PK a GO'D am gyfrannu at y cyfarfod heddiw.

**Tim Joss, Prif Weithredwr a Sylfaenydd AESOP – Arts Enterprise with a Social Purpose**
Soniodd Tim Joss (TJ) am raglen Aesop, Dance to Health i atal cwympiadau sy'n canolbwyntio ar leihau'r tebygolrwydd y bydd oedolion hŷn yn cwympo, a nifer yr achosion hynny. Mae'r rhaglen yn profi i fod yn effeithiol iawn ac mae tystiolaeth ymchwil o Brifysgol Sheffield Hallam yn cefnogi hyn. Mae cyfraddau cadw ar gyfer y rhaglen yn awgrymu y gallai fod yn fwy effeithiol na rhaglenni ffisio cyfredol y GIG. Mae AESOP yn gweithio gyda Chwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ac yn ymchwilio sut i ymestyn a chynnal y model yng Nghymru. Yn allweddol i hyn mae artistiaid dawns proffesiynol o ansawdd uchel sy'n ymgymryd â hyfforddiant trylwyr ac sydd â phrofiad o weithio gyda phobl hŷn. Diolchodd y Cadeirydd i TJ am gyfrannu at y cyfarfod heddiw.

Wedi'i chymell gan y cyflwyniadau, awgrymodd NLJ y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol fynd at Bethan Jenkins, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, i dynnu sylw at lwyddiant ymyriadau o'r fath a gofyn am ymchwiliad i'r celfyddydau ac iechyd, yn enwedig gan fod y dystiolaeth i gefnogi cyflawniadau yn tyfu o hyd. Gallai hyn helpu i godi proffil y gwaith sy'n cael ei wneud ledled Cymru. Cytunodd y Cadeirydd a nodi y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol fynd at Bethan Jenkins neu y gallai fod cyfle i'r Grŵp Trawbleidiol gynnal ei ymchwiliad ei hun.
**Cam Gweithredu: Cyngor Celfyddydau Cymru a Chonffederasiwn GIG Cymru i ddrafftio llythyr at Bethan Jenkins, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, a'i rannu gyda Chadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol.**

**Codi ymwybyddiaeth, gan gydlynu ein dull o gyfathrebu ar effaith y gwaith hwn**
Cytunodd y Grŵp fod angen i ni gyfleu llwyddiant y prosiectau Dawns ar gyfer Parkinson's a Dance to Health (atal cwympiadau) ar y cyfryngau cymdeithasol. Byddai linc i ffilm Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru hefyd yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio'r hashnod Dance4Health.

**Unrhyw fater arall**
**Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru – Sesiwn Ddawns**
Dywedodd GO'D wrth y Grŵp y byddai Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru yn cynnal sesiwn ddawnsio wirfoddol ar 19 Medi 2019 a bod croeso i bawb ddod iddi.

**Ysgrifenyddiaeth**
Diolchodd y Cadeirydd i Helen Williams, Cyngor Celfyddydau Cymru, am ddarparu cymorth ysgrifenyddiaeth dros y blynyddoedd diwethaf.

**Themâu'r cyfarfodydd nesaf:** Nododd SL mai 'y celfyddydau a gofal cymdeithasol' fyddai thema'r cyfarfod nesaf.

**Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf**: Byddai MR yn cysylltu â Chyngor y Celfyddydau i gytuno ar ddyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf.